*These notes refer to the Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 (c.8)*

# MESUR GWASTRAFF (CYMRU) 2010

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Adran 4 – Rheoliadau i osod targedau gwastraff***

30. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu targedau gwastraff eraill, yn ychwanegol at y rhai a osodir o dan adran 3, sy'n ymwneud ag atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff gan awdurdodau lleol. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu dangosyddion i fesur perfformiad awdurdod lleol mewn perthynas â'r targedau hyn ac i osod cosb ariannol ar awdurdodau lleol os na chyrhaeddir y targedau hyn.

31. Mae rheoliadau o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler adran 20(3)).